Archwilio Cymru
Audit Wales

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

## Llythyr Archwilio Blynyddol 2023

Dyma ein llythyr archwilio blynyddol ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'n crynhoi'r negeseuon a'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae mwy o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl

Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) a'r Prif Gwnstabl yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau ac i sicrhau bod eu hasedau'n ddiogel;
- cynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- llunio Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a pharhau i adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

Mae cyrff heddlu yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

## Fy nyletswyddau a chasgliadau archwilio

Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu'n briodol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau ariannol;
- adolygu trefniadau'r corff i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau; a
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

## Mae’r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn cyflwyno darlun cywir a theg o’u sefyllfa ariannol a’u trafodiadau

Cyflwynwyd y datganiadau drafft i’w harchwilio ar 4 Gorffennaf 2023.Roedd hyn cyn y dyddiad cau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 31 Gorffennaf 2023.

Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i’w harchwilio yn dda.

Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn gywir a theg ddiamod ar y datganiadau ariannol ar 11 Rhagfyr 2023. Cyflawnwyd yr archwiliad yn hwyrach nag yn y blynyddoedd blaenorol, yn bennaf oherwydd effaith gofynion safonau archwilio newydd. Ymdriniwyd â’r rhain yn ein cynllun archwilio a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Gorffennaf 2023.

Gwnaed nifer fach o newidiadau i’r datganiadau ariannol sy’n deillio o’n gwaith archwilio, a adroddwyd i’r Cydbwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio o’r Datganiadau Ariannol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2023.

Cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiadau Naratif sy’n cyd-fynd â’r cyfrifon eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â’r datganiadau ariannol a baratowyd ac ein gwybodaeth am Heddlu Gogledd Cymru.

Rwy’n fodlon bod gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau’r corff i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar:

- y gwaith archwilio a wnaed ar y datganiad cyfrifon;
- canlyniadau’r gwaith archwilio a wnaed ar systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl, fel yr adroddwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys ein hadolygiad o gydweithio ar wasanaethau brys yng Nghymru a rhwng y pedwar llu yng Nghymru;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), lle bo’n berthnasol i’m cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall, gan gynnwys o Archwilio Mewnol, yr oeddwn i’n ystyried ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau

At ddibenion fy ngwaith, gwerthusais systemau’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y dull hwn yn fanwl yn **Atodiad 1** i’r llythyr hwn. Ar gyfer pob cwestiwn, rwy’n ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi’i wneud, rwy’n fodlon bod gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi'i gwblhau ar 11 Rhagfyr 2023

Ni chefais unrhyw gwestiynau na gwrthwynebiadau gan etholwyr ynghylch archwiliad 2022-23.

Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a chasgliadau ar drefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau, llwyddais i ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau pan gyhoeddais fy marn archwilio.

## Ffi archwilio ariannol

Mae'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2022-23 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a disgwylir iddo fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yng Nghynllun Archwilio Manwl 2023.

Yn gywir

Matthew Edwards

Cyfarwyddwr Ymgysylltu
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiad 1

## Meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau

**Arddangosyn 1: meini prawf ar gyfer asesu trefniadau**

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion gweithredol a strategol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith sianelau cyfathrebu gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i negeseuon allweddol am wasanaethau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, er mwyn gweld amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau, ar gyfer gweithredu lle bo angen ac adrodd wrth y Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau mewnol |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli eu risgiau busnes sylweddol? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian a geir wrth ddefnyddio adnoddau? |

| **Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol** | **Cwestiynau ar drefniadau** |
|---|---|
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod eu gwariant yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael iddynt? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau unioni lle bo'n briodol, ac adrodd y canlyniadau wrth uwch-reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati.** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, er mwyn gweld amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau ar gyfer gweithredu? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r bwriad o hybu a sicrhau uniondeb a phriodoldeb wrth gynnal eu busnes? |

# Atodiad 1

| **A yw archwilwyr wedi nodi unrhyw arwyddion na fydd trefniadau priodol ar waith o adolygiad o'r ffynonellau canlynol yn ystod eu gwaith archwilio arferol?** | **Canfyddiadau a chasgliad**<br><br>**Yn seiliedig ar y canfyddiadau isod nid oes unrhyw arwyddion nad oes trefniadau priodol ar waith**. |
|---|---|
| **Archwilio cyfrifon** | Barn ddiamod a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr 2023. |
| **Adroddiadau Archwilio Mewnol - TIAA** | Yn ystod 2022-23 cynhaliodd TIAA 22 adolygiad (24 yn 2021-22) a ddyluniwyd i ganfod i ba raddau y mae rheolaethau mewnol yn y system yn ddigonol. Dyfarnwyd sgôr sicrwydd sylweddol i 14 adolygiad (15 yn 2021-22) a dyfarnwyd sgôr sicrwydd rhesymol i 5 adolygiad (7 yn 2021-22). Ni chafodd unrhyw adolygiadau (0 yn 2021-22) sgôr sicrwydd cyfyngedig.<br><br>Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol oedd:<br><br>Rwy'n fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud i'm galluogi i ddod i gasgliad cadarnhaol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Yn fy marn i, mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli cyflawni eu hamcanion.<br><br>Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig ac nid yw'n farn ar hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i gyflawni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru eu cael o'i ffynonellau sicrwydd amrywiol. |

| **A yw archwilwyr wedi nodi unrhyw arwyddion na fydd trefniadau priodol ar waith o adolygiad o’r ffynonellau canlynol yn ystod eu gwaith archwilio arferol?** | **Canfyddiadau a chasgliad**<br><br>**Yn seiliedig ar y canfyddiadau isod nid oes unrhyw arwyddion nad oes trefniadau priodol ar waith**. |
|---|---|
| **Adroddiadau arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)** | Ym mis Chwefror 2023 cyhoeddodd HMICFRS eu Hadroddiad Arolygu PEEL 2021/22. Roedd yr arolygiad yn asesu pa mor dda yw Heddlu Gogledd Cymru mewn naw maes o blismona. Mae’r adroddiad yn nodi canfyddiadau manwl am bethau y mae’r llu’n eu gwneud yn dda a lle dylai’r llu wella. |
| **Adolygu papurau allweddol e.e. strategaethau, cynlluniau, papurau cyfarfod, ac ati** | Mae adolygiad o’r papurau allweddol yn cael ei gynnal fel rhan o’n proses archwilio. Rydym yn ystyried a yw’r Datganiadau Ariannol a’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â’r wybodaeth a gasglwyd gennym o’r ffynonellau hyn. |
| **Adrodd ar y gyllideb** | Mae’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022-23 – 2026-27 yn amlinellu gofynion cyllideb a disgwyliadau gwariant. Mae’r strategaeth hon (pedair blynedd ymlaen) yn cael ei hadnewyddu’n flynyddol i sicrhau bod diffygion cyllid sydd ar ddod yn cael eu nodi’n gynnar a bod camau cywiro yn cael eu cymryd, gan sicrhau bod adnoddau’n cyd-fynd â gwariant a gynllunnir. |

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.